DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 89 Medi 2011

Dan Do Môn ar gael ar safle we Medrwn Môn: www.medrwnmon.org

Rydym yn awyddus i gwtogi ar y papur rydym yn ei ddefnyddio a'i effaith ar yr amgylchedd, yn ogystal a chostau postio. Mae newyddlen Dan Do Môn a MônGwirfodd nawr ar gael ar safle we Medrwn Môn.

Os hoffech weld y newyddlen ar ein safle we **www.medrwnmon.org**, gadewch i ni wybod, fel y gallwn dynnu eich enw o'n rhestr anfon newyddlen. Y nod yn y pen draw yw gweithredu trwy system electroneg – gwerthfawrogwn ymateb i ddechrau ar y broses o fis Tachwedd.

Cynhadledd Ymddiriedolwyr a Llywodraethu CGGC 2011
26 Hydref 2011, Venue Cymru Llandudno

'Rhannu'r baich' yw teitl y Gynhadledd Ymddiriedolwyr a Llywodraethu poblogaidd eleni, a gynhelir yn Llandudno,dydd Mercher , 26 Hydref 2011

Bydd y digwyddiad yn trafod sut y gall byrddau ymddiriedolwyr gydweithio a symud ymlaen mewn cyfnodau anodd, a bydd amryw o siaradwyr arbenigol ac arweinwyr gweithdai yno. Mae'r siaradwyr gwadd yn cynnwys Dorothy Dalton o'r cylchgrawn Governance a Mike Lewis o Gyngor Ffoaduriaid Cymru, a bydd y gweithdai'n cynnwys Simon Boex (Bwrdd Safonau Codi Arian) yn trafod 'Adnoddau, risgiau ac enw da', cynrychiolwyr o'r Comisiwn Elusennau yn trafod 'Y mudiad corfforedig elusennol' a Rob Taylor (Age Cymru) yn trafod 'Bywyd wedi'r uno'.

Ewch i www.wcva.org.uk i weld y rhaglen lawn a'r ffurflen archebu, neu anfonwch e-bost at eventsadmin@wcva.org neu ffoniwch 0800 2888 329 ag ymholiadau pellach.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

GWYBODAETH

Wythnos Ymddiriedolwyr 31ain Hydref – 6ed Tachwedd 2011

Ymddiriedolwyr yw'r bobl sy'n gyfrifol am elusen. Fe'u gelwir yn ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau o'r bwrdd, llywodraethwyr, neu aelodau pwyllgor, ond y nhw yw'r bobl efo cyfrifoldeb eithaf am gyfeirio busnes yr elusen. Yn aml y nhw yw'r arwyr di-glod sy'n chwarae rhan allweddol, gwirfoddoli eu hamser, gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau sy'n cyfrif ynglŷn â chyllid yr elusen, gweithgareddau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
Yn aml fe ddaw pobl yn ymddiriedolwyr i roi rhywbeth 'nôl' ond mae manteision dwy ffordd, elusennau yn manteisio am yr amrediad o sgiliau a phrofiad a geir gyda'r ymddiriedolwyr, ond gall ymddiriedolwyr ddysgu a datblygu sgiliau newydd all arwain at gyfleoedd newydd iddynt, yn ogystal â chyfarfod pobl sy'n rhannu'r un brwdfrydedd.
Cynhelir Wythnos gwirfoddolwyr rhwng 31 Hydref - 6 Tachwedd 2011 i amlygu'r gwaith ardderchog a wneir gan ymddiriedolwyr, ac i dynnu sylw i'r cyfleoedd i bobl o'r un math i fod yn rhan a gwneud gwir wahaniaeth - nid oes angen cymwysterau ffurfiol fel arfer, efo amryw o elusennau angen mwy o ymddiriedolwyr.
Gobeithiwn y bydd elusennau a mudiadau ar draws y bwrdd yn dod ynghyd i drefnu digwyddiadau i nodi Wythnos Gwirfoddolwyr 2011 i ddathlu'r gwaith rhagorol a wneir gan ymddiriedolwyr i elusennau drwy'r wlad ac i annog mwy o bobl i feddwl os yw bod yn ymddiriedolwr yn iawn iddyn nhw.
Os ydych yn trefnu digwyddiad Wythnos Gwirfoddolwyr, byddwn yma ym Medrwn Môn yn falch o glywed gennych - gobeithiwn drefnu digwyddiad ar gyfer yr wythnos.

Ffair Bywyd Iach a Chartref Diogel Ynys Môn

Neuadd Goffa Amlwch, 5 Hydref 2011, 10am – 4pm
Cyngor a gwybodaeth ar nifer o bynciau
Lluniaeth, Drama, Stondinau, Adloniant,
Prawf plancedi trydan – cysylltwch ar 01248 752870
i wneud apwyntiad.
Dewch yn llu - pob dim am ddim.

HYFFORDDIANT

Sut i greu cyfleoedd gwirfoddoli i bawb
Dydd Mawrth, 11 Hydref 2011

Ystafell Gynhadledd Cybi, Adran Economaidd, Canolfan Busnes Bryn Cefni, Parc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni

Cost: £20.00 yn cynnwys cinio
Dyddiad cau: 3 Hydref 2011

Bydd y gweithdy yn eich helpu i feddwl am lawer o syniadau gwych i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli newydd fel y gallwch sicrhau mwy o gyfranogiad gan yr amrediad mwyaf eang posib o bobl yn y gymuned.
Hwylusydd y gweithdy fydd Adam May sy'n byw yn lleol, ac sydd ag ugain mlynedd o brofiad o 'sgwennu am wirfoddoli a darparu hyfforddiant ar faterion gwirfoddoli drwy'r DU. Yn ddiweddar mae wedi bod yn gweithio ar ddulliau o ledu cyfranogi mewn gwirfoddoli.

Hylendid Bwyd
Dydd Iau, 3 Tachwedd 2011

Mae amryw o fanteision ynghlwm ag ennill tystysgrif hylendid bwyd, y mwyaf nodedig yw'r dystiolaeth a dderbyniwch o'r lefel briodol o'r hyfforddiant a dealltwriaeth o egwyddorion hylendid bwyd sylfaenol - mae'n rhoi ymwybyddiaeth elfennol o faterion hylendid a diogelwch da hefo cyfeiriadau i baratoi coginio a thrin bwyd.

Mae'r cymhwyster tair blynedd CIEH Gwobr lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd mewn arlwyaeth yn hanfodol i wirfoddolwyr/aelodau pwyllgor/ymddiriedolwyr.

Cymorth Cyntaf
Dydd Iau, 10 Tachwedd 2011

Annogwn holl grwpiau gwirfoddol i fod â llond llaw o fobl cymwys cymorth cyntaf rhag ofn sefyllfa annisgwyl!

Mae'r cwrs diwrnod yma yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau a rhoir tystysgrif tair blynedd i'r rhai sy'n cyrraedd y gofynion.

Cynhelir y ddau gwrs yn Ystafell Gynhadledd Llynnon, Adran Economaidd, Canolfan Fusnes Môn, Parc Diwydiannol Bryn Cefni , Llangefni

Cost: £45.00 y cwrs yn cynnwys cofrestru, llyfrau, achrediad, lluniaeth a llogi ystafell

Dyddiad cau y ddau gwrs: 20 Hydref 2011

Os â diddordeb dychwelwch y daflen werdd amgaeedig yn Dan Do 89.

NEWYDDION CYLLIDO

Elusen Percy Bilton

Gall mudiadau sy'n cynorthwyo pobl ifanc dan anfantais, pobl ag anableddau a phobl hyn ymgeisio am grant tuag at wariant cyfalaf. Mae'n rhaid i fudiadau sy'n bwriadu ymgeisio fod yn elusen gofrestredig yn y DU efo'i amcanion penodol i gynorthwyo un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- Pobl ifanc dan anfantais / difreintiedig (pobl dan 25)
- Pobl ag anableddau (corfforol neu anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl)
- Pobl hŷn (dros 60 oed)

Maent â 2 raglen i fudiadau:
Grantiau Mawr: - taliad unwaith ac am byth i wariant cyfalaf oddeutu £2,000 a throsodd e.e. dodrefn ac offer, prosiectau adeiladau / ail wampio Noder nad ydynt yn ariannu costau rhedeg.

Grantiau Bach – Cyfraniadau i fyny at £500 tuag at eitemau dodrefnu ag offer i brosiectau bach. Mae'r rhaglen yma yn fwy addas ar gyfer mudiadau bach. Bydd y swm a gynigir yn dibynnu fel arfer ar y nifer o geisiadau a dderbynnir mewn cyswllt i'r cyllid ar gael i'w rannu. Efallai na fyddech yn derbyn y swm llawn y gofynnwyd amdano.
Gellir ymgeisio unrhyw amser ac fe'u hystyrir yn y cyfarfod bwrdd priodol. Ystyrir ceisiadau am grantiau bach yn fisol.

Am fwy o wybodaeth ar gymhwyster a sut i ymgeisio ewch i:
http://www.percybiltoncharity.org.uk/applications-organisation.htm

---

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae 'rheolau' Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm wedi newid. Y tri newid yw: rowndiau unigol ar gyfer mudiadau o bob maint; newid yn y symiau y gellir gwneud cais amdanynt a chyfrir geiriau ar y ceisiadau.

Bydd y cynllun ar agor o ddydd Mawrth 1 Tachwedd 2011 tan ddydd Llun 19 Rhagfyr 2011 i dderbyn ceisiadau oddi wrth gyrff lleol. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod dechrau Mawrth 2012 i ddyfarnu arian i brosiectau lleol – felly bydd angen i brosiectau ddechrau ar ôl Ebrill 2012.

Ymwelwch â'r wefan am eu ffurflenni cais newydd a manylion dyddiadau cau: www.millenniumstadiumtrust.co.uk

NEWYDDION

Y Gronfa Arloesi

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi y bydd £5 miliwn ar gael ar gyfer 'Gweithredu Cymunedol yn erbyn Troseddu: Cronfa Arloesi' i ddwyn dinasyddion gweithredol at ei gilydd ac i annog dulliau newydd a chreadigol o weithio mewn cymunedau i fynd i'r afael â throseddu, gyda £5 miliwn arall wedi'i neilltuo ar gyfer 2012-13.

Diben y Gronfa Arloesi yw annog dulliau newydd o fynd i'r afael â throseddu. Gwneir hynny drwy rymuso grwpiau lleol i ddatblygu prosiectau arloesol i fynd i'r afael â phroblemau diogelwch cymunedol. Mae'r Llywodraeth yn arbennig o awyddus i sicrhau bod y gronfa ar gael i weithredwyr cymunedol ar lawr gwlad nad ydynt yn draddodiadol wedi arfer cael grantiau gan y Llywodraeth. Mae hefyd am weld y gronfa'n annog y sector gwirfoddol i gydweithio'n fwy clos â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac asiantaethau statudol eraill sy'n cael effaith ar ddiogelwch y gymuned, mewn ymdrech i ddylunio a darparu gwasanaethau ar y cyd.

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau o'r sector gwirfoddol a chymunedol. Bydd manylion llawn ar sut i baratoi cais ar gyfer 2011-12 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref yn fuan. Dylid anfon ymholiadau am y Gronfa Arloesi i: CAACFunding@homeoffice.gsi.gov.uk

---

RNIB Cymru

RNIB Cymru
supporting blind and partially sighted people

Mae Gwasanaeth Hawliau Lles ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn nawr yn weithredol. Bydd y gwasanaeth ar gael i unrhyw un sy'n byw yn yr ardaloedd hyn sydd wedi colli eu golwg – os ydynt wedi eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ai peidio. Ariennir y gwasanaeth am 2 flynedd gan y Gronfa Loteri Fawr a bydd yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â RNIB Cymru. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru ar 01248 353604.

ASBAH

Mae **ASBAH** (Cymdeithas Spina Bifida a Hydrocephalus) yn newid ei enw i **Shine** (Spina Bifida, Hydroseffalws, Gwybodaeth, Rhwydweithio, Cydraddoldeb) o 20 Hydref, 2011.

Lleolir Cynghorydd Ardal Gogledd Cymru, Bryn Roberts, yn swyddfa Medrwn Môn. Gellir cysylltu ag ef ar 01248 724944.

Enfysau Llangefni (Girlguiding UK)

Rainbows

Lleoedd ar gael i enethod rhwng 5 a 7 oed. Maent yn cyfarfod pob dydd Mawrth, rhwng 5pm a 6pm yn Neuadd yr Eglwys, Sant Cyngar, Llangefni. Cysylltwch ar 01407 840866 neu 01248 724230 am fwy o wybodaeth.

NEWYDDION

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCR) - 19 Medi, 2011

(Cyhoeddwyd yr erthygl gan Dilys Shaw)

1 Mae arolwg wedi cael ei wneud ledled Gogledd Cymru ar gleifion mewnol (ar fin cael eu rhyddhau) mae'r canlyniadau, o gymharu â darparwyr eraill yn Lloegr, yn dangos bod allan o'r 67 cwestiwn 14 yn dangos yn well na chanlyniadau cyfartaledd, 14 yn waeth ac yn y 39 sy'n weddill yn rhoi cyfartaledd canlyniadau. Gofynnwyd i 2000 a dychwelodd 50% o bobl yr arolwg yn ôl.

2 Mae'r Bwrdd, er gwaethaf y diffygion ariannol sy'n dangos ar hyn o bryd, yn rhagweld y byddant yn adennill costau.

3 Mae Ysbyty Llandudno yn destun i gynllun ailddatblygu 10 mlynedd sy'n cynnwys uned newydd Mân Anafiadau, Canolfan Merched gweithio ochr yn ochr â'r uned Bron Brawf Cymru gydag offer newydd ac uned Adsefydlu.

4 Adolygu gwasanaethau orthopedig. Roedd y GCR wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn oherwydd pryder dros y rhestrau aros hir. Nod yr Adolygiad yw datblygu model cynaliadwy a fydd yn gallu ymdopi â galw cynyddol. Mae amryw o grwpiau aml-asiantaeth a gweithdai rhanddeiliaid wedi cytuno ar farn gonsensws bod angen datblygu cysyniad màs critigol clinigol fydd yn cynnwys rhai meysydd o arbenigedd mewn gwahanol ardaloedd ar draws Gogledd Cymru. Yn anochel mae cysylltiadau cryf rhwng llawdriniaeth frys cyffredinol a thrawma. Mae'n rhaid cael cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Lleol ac adsefydlu, ond cytunwyd fod rhaid cael gwasanaethau ôl lawdriniaeth i gleifion allanol mor lleol ag y bo modd. Lle bo modd, darperir y gwasanaethau o fewn Gogledd Cymru, i gynnwys hyblygrwydd. Dyrannwyd chwe deg miliwn o bunnoedd yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r broblem yn gweithio i gynllun tair blynedd. Mae BPBC wedi dyfeisio cynllun cyflenwi un flwyddyn sy'n cael ei harchwilio'n ofalus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd 1000 o gleifion ar restrau yn awr yn cael eu trin gan ddefnyddio pob gofod sydd ar gael mewn theatrau a chael cleifion allanol ychwanegol a chlinigau paratoadol. Bydd 1500 o gleifion allanol yn gweithio gyda meddygon teulu a chleifion - gan ddefnyddio Gobowen, Lerpwl ac ysbytai annibynnol. Bydd y 1500 sy'n weddill yn destun ateb cynaliadwy yn cynnwys adnoddau newydd - dwy theatr newydd (Ysbyty Gwynedd a Wrecsam), ymgynghorwyr, anesthetyddion, staff nyrsio a staff adsefydlu yn cael eu penodi ar hyn o bryd. Mae'r theatr newydd i fod i agor ym mis Rhagfyr. Anelir na fydd unrhyw achos o dorri'r targed 36 wythnos erbyn diwedd Mawrth 2012. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adsefydlu, pwysleisiwyd fod bellach llawer mwy o bwyslais ar ail-alluogi gyda mwy o gleifion yn llawer mwy ffit yn gadael yr ysbyty gyda chyfnodau byrrach o aros. Cadarnhawyd hefyd y bydd gwaith yn parhau 7 diwrnod yr wythnos. Bydd y cam nesaf yn cynnwys gwaith pellach ar e.e. atal disgyn ac ati.

NEWYDDION

5 Gwasanaethau Mân Anafiadau. Adroddwyd bod yna amrywiaeth o wasanaethau gwahanol sy'n darparu gofal brys yn amrywio o'r adrannau Brys yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, gwasanaeth tu allan i oriau, ysbytai cymunedol a gwasanaethau gofal gwell sylfaenol a ddarperir gan feddygon teulu. Ni chynlluniwyd safleoedd ar gyfer rhai o'r rhain e.e. ysbytai cymunedol, ac o ganlyniad i ddamweiniau hanesyddol, disodlwyd yr ysbytai bwthyn gwreiddiol i raddau helaeth gan Ysbytai Cyffredinol Dosbarth. Dylai'r ddarpariaeth gael ei arwain gan angen ac ansawdd. Mae'r defnydd o ysbytai cymunedol mewn rhai achosion wedi gostwng yn sylweddol ond hefyd wedi cynyddu neu wedi aros yr un fath mewn achosion eraill yn ddibynnol ar y lleoliadau a'r gwasanaethau a gynigir. Mae llawer o dan arweiniad nyrs ac nid yw pob un yn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yn enwedig ar gyfer Pelydr X. Mae hyn i gyd bellach yn cael ei drin gan yr arweinyddiaeth glinigol Ardal ac yn edrych ar anghenion. Mae glasbrint ar gyfer gofal heb ei drefnu ar gael a bydd yn cael ei basio ymlaen i'r Aelodau. Cytunwyd bod dryswch gan y cyhoedd ynghylch pa wasanaeth i gael mynediad iddo mewn achosion o argyfwng, angen mwy o waith ar hyn.

6 Cwynion. Mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol ond mae llawer o ffactorau wedi cyfrannu at y ffaith mai dim ond 31% sy'n cael eu cwblhau o fewn yr amser targed o 30 diwrnod. Mae hwn bellach yn destun ymdrech ar y cyd i wella a gofynnodd yr GCR am adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.

7 Adroddiad Blynyddol GCR. Cyflwynwyd drafft a gofynnwyd am adborth.

Digwyddiad Samariaid 11 Tachwedd 2011, yng Nghanolfan Telford, Porthaethwy rhwng 10am - 3pm

Trefnir digwyddiad i hyrwyddo'r gwasanaethau a wnaed gan y Samariaid a'r gwaith y maent yn ei wneud. Bydd sefydliadau perthnasol hefyd yn bresennol megis yr Heddlu, Medrwn Môn, Mantell Gwynedd, Cyngor ar Bopeth Gwynedd a Môn, Gofalwyr, Camddefnyddio Sylweddau, Cam-drin Domestig a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac eraill.

Mae croeso i chi fynychu, i rwydweithio ac i ddysgu mwy am y Samariaid a gwasanaethau eraill yn bresennol. Oherwydd diffyg lle, cyfyngir mudiadau i arddangos taflenni ar fwrdd Medrwn Môn a Mantell Gwynedd yn unig.

Cysylltwch ag Ann Perkins ar 01248 724944 neu e-bost: ann@medrwnmon.org

---

Sioe Môn - Medrwn Môn 2011

Unwaith eto bu Sioe 2011 yn un o uchafbwyntiau calendr cymdeithasol Ynys Môn hefo nifer o bobl yn mynychu pabell Medrwn Môn.

Llongyfarchiadau i Mrs Audrey Owen, Pont Rhyd y Bont, ennillydd yr hamper a roddwyd gan Gofal a Thrwsio oedd yn rhannu ein pabell yn Sioe Môn.

COMISIWN ELUSENNAU

Comisiwn Elusennau - Diwygio Dogfennau Llywodraethol

Dogfen lywodraethol yw llawlyfr cyfarwyddiadau'r elusen ac mae un gan bob elusen. Mae'n amlinellu dibenion yr elusen a'r rheolau y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr eu dilyn. Gallai fod ar ffurf, cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr adolygu eu dogfen lywodraethol yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn eu galluogi i redeg yr elusen yn effeithiol. Mae'r erthygl hon yn disgrifio'n fras sut i ddiwygio dogfen lywodraethol.
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gweler canllaw y Comisiwn *CC36 - Newid Dogfen Lywodraethol eich Elusen.*

Fel ymddiriedolwyr, cyn gwneud newidiadau, mae angen meddwl:

- pam ydych chi am wneud y newid;
- pa gymalau fyddech chi'n hoffi eu newid a sut;
- a yw'r pŵer gennych i ddiwygio'r ddogfen;
- a fydd y newid yn effeithio ar unrhyw gymalau eraill yn y ddogfen lywodraethol; ac a oes angen cydsyniad y Comisiwn Elusennau neu unrhyw gydsyniad arall arnoch cyn diwygio'r ddogfen.

Gallai pwerau diwygio gael eu rhoi yn y canlynol:

1. Y ddogfen lywodraethol ei hun
2. Pŵer diwygio gweinyddol (yn Neddf Elusennau 1993 neu'r gyfraith cwmnïau)
3. Pŵer i elusennau bach ddiwygio eu hamcanion.

1. Cymal diwygio yn y ddogfen lywodraethol

Fel arfer bydd y cymal hwn yn amlinellu'r hyn y gallwch a'r hyn na allwch ei newid, pwy sy'n gallu gwneud y newid, sut i wneud hynny ac a oes angen cydsyniad y Comisiwn Elusennau arnoch cyn gwneud y newid. Yn aml bydd angen cydsyniad y Comisiwn Elusennau arnoch i wneud newidiadau i'r amcanion, buddion ymddiriedolwyr a/neu gymalau diddymu.

2. Pwerau diwygio gweinyddol

Mae'r ddogfen yn nodi canllawiau ar gyfer Elusennau sydd heb fod yn gwmnïau, a chwmnïau elusennol

3. Pŵer elusennau bach i ddiwygio amcanion

Gall elusennau sydd:

- heb fod yn gwmnïau;
- y mae eu hincwm blynyddol yn llai na £10,000;
- heb berchen ar dir sy'n cael ei ddal at ddiben arbennig; ac sydd am ddiwygio eu hamcanion ddefnyddio pŵer arbennig i elusennau bach.

Mae'r canllaw yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch sut i ddefnyddio'r pŵer hwn a'r pethau y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr eu hystyried ymlaen llaw.

COMISIWN ELUSENNAU

Cynllun y Comisiwn Elusennau

Weithiau, ni all yr ymddiriedolwyr ddefnyddio unrhyw un o'r pwerau hyn. Er enghraifft, efallai bod yr ymddiriedolwyr am wneud newid i gymal amcanion ei dogfen lywodraethol, mae eu hincwm blynyddol dros £10,000 ac nid oes unrhyw bŵer diwygio yn eu dogfen lywodraethol. Ni allant ddefnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Elusennau oherwydd nid yw'n ddiwygiad gweinyddol.

Yn yr achosion hyn, gall yr ymddiriedolwyr wneud cais i'r Comisiwn am gynllun i newid eu dogfen lywodraethol. Bydd y Comisiwn Elusennau yn gwneud cynlluniau mewn rhai amgylchiadau penodol ac mae gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn. Mae'r canllaw yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Hysbysu'r Comisiwn

Os yw'ch elusen yn gofrestredig, bydd angen i chi ddweud wrth y Comisiwn Elusennau am y newidiadau, gan gynnwys pryd y cawsant eu gwneud, er mwyn iddynt gadw'r Gofrestr Elusennau yn gyfoes. Os yw'ch elusen yn gwmni hefyd, mae'n rhaid i chi ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau am y newidiadau.

Mae'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan yn cynnig ffordd gyflym a hawdd i chi roi'r wybodaeth i'r Comisiwn Elusennau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

deborah.hawkins@charitycommission.gsi.gov.uk ffôn: 01633 225508

NEWYDDION CYLLIDO

Live UnLtd

Mae *Live UnLtd* yn awyddus i gefnogi oddeutu 1500 o bobl ifanc rhwng 11 a 21 oed gyda grantiau o hyd at £5,000 er mwyn iddynt allu sefydlu prosiectau i ddatblygu eu cymunedau er gwell. Gallai gweithgarwch gynnwys sefydlu busnesau cymdeithasol, timau chwaraeon, grwpiau hamdden, digwyddiadau ayb. Mae'r cynllun yn weithredol ledled y DU.

Mae'n rhaid i'r gweithgarwch sydd gennych dan sylw: gael effaith gymdeithasol gadarnhaol ar eich cymuned; dangos eich bod wedi canfod problem ac yn gallu esbonio sut y byddai eich prosiect yn mynd i'r afael â'r broblem honno; darparu profiad neu gyfle i ddysgu. Rhaid defnyddio'r grant ar gyfer gweithgareddau sy'n berthnasol i'r prosiect ac ni ellir ei ddefnyddio i dalu am dreuliau byw, cyflawni cymwysterau academaidd nac i gyflogi pobl eraill i redeg eich prosiect. Mae'r broses ymgeisio'n dechrau drwy anfon ymholiad cychwynnol drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn www.liveunltd.com/enquiry/ Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd.

NEWYDDION

CEFNOGI CYMUNEDAU I DYFU

Mae rhaglen newydd i helpu pobl i sefydlu a rheoli cynlluniau tyfu yn eu cymunedau wedi cael ei lansio ledled Cymru gan Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG). **Enw'r rhaglen tair blynedd yw Tyfu Pobl, a bydd yn cefnogi amrywiaeth o gynlluniau, gan gynnwys ffermydd dinesig, rhandiroedd, gerddi cymunedol, perllannau cymunedol a chynlluniau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned**. Mae'r rhaglen yn deillio o ganlyniad uniongyrchol i'r diddordeb cynyddol mewn tyfu bwyd yn gymunedol a chreu meysydd glas naturiol.

Caiff y rhaglen ei chyllido gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn sicrhau na fydd grwpiau cymunedol yn gweithio ar eu pennau eu hunain - bydd pobl leol yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, fel y bydd cysylltiadau'n cael eu creu drwy Gymru gyfan rhwng cynlluniau tyfu newydd a'r rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu. Mae tîm datblygu newydd eisoes wedi'i roi at ei gilydd, a cheir swyddfa rhanbarthol ym Mangor. Yn y cyfamser, bydd Cydlynydd Menter a Chyllido Cymunedol yn helpu i oresgyn effeithiau andwyol yr hinsawdd gyllido bresennol drwy sicrhau mynediad at ffynonellau cyllid, a gweithio gyda grwpiau i'w helpu i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, ac yn llai dibynnol ar grantiau.

O ganlyniad i'r rhaglen, bydd grwpiau tyfu lleol yn cael budd o gefnogaeth a chyngor gan y tîm datblygu, yn ogystal â chan weithwyr maes o grwpiau sydd eisoes yn bodoli, a mentoriaid i helpu gyda rhandiroedd. Bydd cynllun bwrsariaethau teithio ar gael hefyd, er mwyn i grwpiau allu ymweld â safleoedd ei gilydd, a mynd i gyfarfodydd rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dyfwyr a garddwyr lleol gyfarfod, dysgu sgiliau newydd a chyfnewid syniadau ac ysbrydoliaeth.

Cynhelir hyfforddiant yn ymwneud â 4 prif faes; cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol, sefydlu prosiect tyfu cymunedol a chreu mannau tyfu cymunedol ar gyfer perchnogion tir.

Mwy o fanylion gan Katie Jones, ffôn 029 2022 5942,
e-bost Katie@farmgarden.org.uk

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5c, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org